



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2019 Rhif 684 (Cy. 131)**

**2019 No. 684 (W. 131)**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**EXITING THE EUROPEAN  
UNION, WALES**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

Rheoliadau Iechyd a Lles  
Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol)  
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

The Animal Health and Welfare  
(Miscellaneous Amendments)  
(Wales) (EU Exit) Regulations 2019

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

These Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, ym meysydd cofrestru sefydliadau ieir dodwy, lles anifeiliaid wrth eu cludo, lles anifeiliaid a ffermir a lles anifeiliaid wrth eu cigydda.

These Regulations make amendments to subordinate legislation, which apply in relation to Wales, in the fields of the registration of laying hen establishments, animal welfare at transport, the welfare of farmed animals and animal welfare at slaughter.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2019 Rhif 684 (Cy. 131)**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

Rheoliadau Iechyd a Lles  
Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol)  
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gwnaed* 8pm ar 19 Mawrth 2019

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2019 No. 684 (W. 131)**

**EXITING THE EUROPEAN  
UNION, WALES**

**ANIMALS, WALES**

The Animal Health and Welfare  
(Miscellaneous Amendments)  
(Wales) (EU Exit) Regulations 2019

*Made* 8pm on 19 March 2019

*Coming into force in accordance with regulation 1(2)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(1), make the following Regulations.

In accordance with paragraph 1(9) of Schedule 7 to that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Title, commencement and application**

1.—(1) The title of these Regulations is the Animal Health and Welfare (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019.

(2) These Regulations come into force on exit day.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

## Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004

2.—(1) Mae Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

- (a) hepgorer y diffiniadau o “y Gyfarwyddeb” a “Cynulliad Cenedlaethol”;
- (b) yn y diffiniad o “cofrestr”, yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Weinidogion Cymru”.

(3) Yn rheoliad 4—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “i’r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
- (b) ym mharagraff (2)—
  - (i) yn lle “i’r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
  - (ii) yn lle “â’r Gyfarwyddeb” rhodder “â pharagraff (3)”;

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Rhaid i’r rhif adnabod gael ei ffurfio o’r cod dull ffermio priodol a bennir yn unol â pharagraffau (5) i (7), wedi ei ddilyn gan y llythrennau “UK”, wedi eu dilyn gan rif adnabod unigryw a ddyrennir i’r sefydliad gan Weinidogion Cymru.

(4) Pan ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn briodol gwneud hynny, caniateir iddynt ychwanegu nodau pellach i’r rhif adnabod unigryw sy’n ofynnol gan baragraff (3) er mwyn adnabod heidiau unigol a gedwir gan sefydliad mewn adeiladau ar wahân.

(5) Ac eithrio pan fo paragraff (6) yn gymwys, pan ddefnyddir y dull ffermio yng ngholofn A, y cod dull ffermio priodol yw’r rhif cyfatebol yng ngholofn B.

<i>Colofn A</i>	<i>Colofn B</i>
Maes	1
Ysgubor	2
Cewyll	3

## The Registration of Establishments (Laying Hens) (Wales) Regulations 2004

2.—(1) The Registration of Establishments (Laying Hens) (Wales) Regulations 2004(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2—

- (a) omit the definitions of “the Directive” and “the National Assembly”;
- (b) in the definition of “register”, for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”.

(3) In regulation 4—

- (a) in paragraph (1), for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
- (b) in paragraph (2)—
  - (i) for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
  - (ii) for “the Directive” substitute “paragraph (3)”;

(c) after paragraph (2) insert—

“(3) The distinguishing number must be composed of the appropriate farming method code determined in accordance with paragraphs (5) to (7), followed by the letters “UK”, followed by a unique identification number allocated to the establishment by the Welsh Ministers.

(4) Where it appears appropriate to the Welsh Ministers to do so, they may add further characters to the unique identification number required by paragraph (3) in order to identify single flocks kept in separate buildings of an establishment.

(5) Except where paragraph (6) applies, when the farming method in column A is used, the appropriate farming method code is the corresponding number in column B.

<i>Column A</i>	<i>Column B</i>
Free Range	1
Barn	2
Cages	3

(1) O.S. 2004/1432 (Cy. 145), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 2004/1432 (W. 145), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(6) Pan fo'r dull ffermio a ddefnyddir yn y sefydliad yn cynhyrchu wyau o dan yr amodau a nodir yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig, y cod dull ffermio priodol yw "0".

(7) At ddibenion paragraff (5), mae'r dull ffermio a ddefnyddir mewn sefydliad i'w bennu yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer wyau."

(4) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru", ac ym mharagraff (4), yn lle "i'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "i Weinidogion Cymru";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdani" rhodder "mae Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani".

(5) Yn rheoliad 7(1), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru", ac yn rheoliad 11, yn lle "neu'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "neu Weinidogion Cymru".

#### **Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007**

**3.—(1)** Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, hepgorer paragraff (5).

(3) Yn lle erthygl 20 rhodder—

##### **"Yr awdurdod cymwys**

**20.** Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97 a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005."

(4) Yn erthygl 22—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru"; ym mharagraff (3)(c), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru"; ac ym mharagraff (5), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru";

(6) Where the farming method used in the establishment produces eggs under the conditions set out in Council Regulation (EC) No 834/2007 on organic production and labelling of organic products, the appropriate farming method code is "0".

(7) For the purposes of paragraph (5), the farming method used in an establishment is to be determined in accordance with Commission Regulation (EC) No 589/2008 laying down rules for implementing Council Regulation (EC) No 1234/2007 as regards marketing standards for eggs."

(4) In regulation 6—

(a) in paragraphs (2) and (4), for "National Assembly" substitute "Welsh Ministers";

(b) in paragraph (3), for "National Assembly requires" substitute "Welsh Ministers require".

(5) In regulations 7(1) and 11, for "National Assembly" substitute "Welsh Ministers".

#### **The Welfare of Animals (Transport) (Wales) Order 2007**

**3.—(1)** The Welfare of Animals (Transport) (Wales) Order 2007(1) is amended as follows.

(2) In article 2, omit paragraph (5).

(3) For article 20 substitute—

##### **"The competent authority**

**20.** The Welsh Ministers are the competent authority for the purposes of Council Regulation (EC) No 1255/97 and Council Regulation (EC) No 1/2005."

(4) In article 22—

(a) in paragraphs (1), (3)(c) and (5), for "National Assembly" substitute "Welsh Ministers";

---

(1) O.S. 2007/1047 (Cy. 105).

---

(1) S.I. 2007/1047 (W. 105).

- (b) ym mharagraff (2)(a), yn lle “fo’r Cynulliad Cenedlaethol o’r farn” rhodder “fo Gweinidogion Cymru o’r farn”;
- (c) ym mharagraff (4)—
  - (i) yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol”, yn y lle cyntaf y mae’n digwydd, rhodder “Weinidogion Cymru”;
  - (ii) yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu” rhodder “Gweinidogion Cymru yn penderfynu”.

(5) Yn erthygl 23—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Weinidogion Cymru”, ac ym mharagraff (3), yn lle “i’r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Gweinidogion Cymru”;
- (c) ym mharagraff (4)—
  - (i) yn lle “i’r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
  - (ii) yn lle “o’i benderfyniad terfynol a’i resymau” rhodder “o’u penderfyniad terfynol a’u rhesymau”.

(6) Yn erthyglau 24(9) a 29(2), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “Weinidogion Cymru”; ac yn erthyglau 26(1)(a) a 27(b), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Gweinidogion Cymru”.

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007**

4.—(1) Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, ym mharagraff 27(2), yn lle “mae i’r ymadrodd “triniaeth söotechnegol” yr ystyr a roddir i “zootechnical treatment” yn Erthygl 1(2)(c) o Gyfarwyddeb 96/22/EEC ar wahardd defnyddio sylweddau penodol sy’n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a beta-agonistiaid mewn ffermio da byw.” rhodder “ystyr “triniaeth söotechnegol” (“zootechnical treatment”) yw rhoi i anifail, yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013(2), gynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol sydd ag effaith estrogenaidd, androgenig neu estagenaid ar gyfer cydamseru estrws a pharatoi’r anifeiliaid sy’n

- (b) in paragraph (2)(a), for “National Assembly considers” substitute “Welsh Ministers consider”;
- (c) in paragraph (4)—
  - (i) for “National Assembly”, in the first place where it occurs, substitute “Welsh Ministers”;
  - (ii) for “National Assembly decides” substitute “Welsh Ministers decide”.

(5) In article 23—

- (a) in paragraphs (1) and (3), for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
- (b) in paragraph (2), for “National Assembly’s” substitute “Welsh Ministers”;
- (c) in paragraph (4)—
  - (i) for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
  - (ii) for “its”, in both places where that word occurs, substitute “their”.

(6) In articles 24(9), 26(1)(a), 27(b) and 29(2), for “National Assembly”, in each place where it occurs, substitute “Welsh Ministers”.

**The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007**

4.—(1) The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007(1) are amended as follows.

(2) In Schedule 1, in paragraph 27(2), for “has the meaning given in Article 1(2)(c) of Directive 96/22/EEC concerning the prohibition on the use in stockfarming of certain substances having a hormonal or thyrostatic action and of beta-agonists.” substitute “means the administering to an animal, in accordance with regulation 8 of the Veterinary Medicines Regulations 2013(2), of veterinary medicinal products having an oestrogenic, androgenic or gestagenic action for synchronizing oestrus and preparing donors and recipients for the implantation of embryos, after examination of the animal by a veterinary surgeon or

(1) O.S. 2007/3070 (Cy. 264), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/2713 (Cy. 229).

(2) O.S. 2013/2033, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 2007/3070 (W. 264), amended by S.I. 2010/2713 (W. 229).

(2) S.I. 2013/2033, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

rhoi a'r anifeiliaid maeth ar gyfer mewtblannu embryonau, ar ôl i'r anifail gael ei archwilio gan filfeddyg neu rywun y mae milfeddyg yn gyfrifol amdano.”

(3) Yn Atodlen 5A, ym mharagraff 2—

(a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Rhaid i geidwad ddal tystysgrif gydnabyddedig.

(1A) Yn y paragraff hwn, ystyr “tystysgrif gydnabyddedig” yw tystysgrif a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru sy'n tystio bod unrhyw hyfforddiant wedi ei gwblhau, neu fod profiad wedi ei fagu sy'n cyfateb i unrhyw hyfforddiant, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.”;

(b) yn is-baragraff (2), yn lle “dystysgrifau a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-baragraff (1)” rhodder “dystysgrifau cydnabyddedig”.

#### **Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014**

5.—(1) Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1), yn y diffiniad o “Rheoliad UE”, ar y diwedd mewnosoder “fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd”;

(b) hepgorer paragraff (4).

(3) Yn rheoliad 4(2), hepgorer “, a hwy sy'n gweithredu fel yr Aelod-wladwriaeth”.

(4) Yn rheoliad 11(3), yn lle “Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd” rhodder “Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon”.

(5) Yn rheoliad 19(1), hepgorer “(gan gynnwys tystysgrif neu dystysgrif dros dro a roddwyd mewn Aelod-wladwriaeth arall)”.

(6) Yn rheoliad 35, yn lle paragraff (6) rhodder—

“(6) Caiff arolygydd fynd i mewn yng nghwmni pa bynnag bersonau eraill yr ystyria'r arolygydd yn angenrheidiol.”

someone under the responsibility of a veterinary surgeon.”

(3) In Schedule 5A, in paragraph 2—

(a) for sub-paragraph (1) substitute—

“(1) A keeper must hold a recognised certificate.

(1A) In this paragraph, “recognised certificate” means a certificate recognised by the Welsh Ministers attesting to the completion of such training, or the acquisition of experience equivalent to such training, as the Welsh Ministers consider appropriate.”;

(b) in sub-paragraph (2), for “certificates recognised by the Welsh Ministers for the purposes of sub-paragraph (1)” substitute “recognised certificates”.

#### **The Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014**

5.—(1) The Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014(1) are amended as follows.

(2) In regulation 3—

(a) in paragraph (1), in the definition of “EU Regulation”, at the end insert “as amended from time to time”;

(b) omit paragraph (4).

(3) In regulation 4(2), omit “, and act as the member State,”.

(4) In regulation 11(3), for “England, Scotland, Northern Ireland or another member State of the European Union” substitute “England, Scotland or Northern Ireland”.

(5) In regulation 19(1), omit “(including a certificate or temporary certificate granted in another member State)”.

(6) In regulation 35, for paragraph (6) substitute—

“(6) An inspector may be accompanied by such other persons as the inspector considers necessary.”

---

(1) O.S. 2014/951 (Cy. 92).

---

(1) S.I. 2014/951 (W. 92).

(7) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 3(2), ar ôl “ag unrhyw rwymedigaeth UE” mewnosoder “a ddargedwir”.

(7) In Schedule 2, in paragraph 3(2), for “any EU obligation” substitute “any retained EU obligation”.

*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,  
un o Weinidogion Cymru  
19 Mawrth 2019 ar 8pm

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,  
one of the Welsh Ministers  
19 March 2019 at 8pm

---

©©Hawlfraint y Goron 2019

---

© Crown copyright 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W201903261003 04/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/684>

ISBN 978-0-348-20401-8



9 780348 204018